# AROLWG AR GYFER
# YMGEISWYR YN ETHOLIAD
# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU 2016

Adran Astudiaethau Diwylliannol a Gwleidyddol, Prifysgol Abertawe, Abertawe SA2 8PP
Ffôn: 01792 295226; E-bost: siim.trumm@abertawe.ac.uk

Os yw'n well gennych, gallwch gwblhau'r arolwg hwn ar-lein yn:
**http://wales2016.questionpro.com** (Saesneg)
**http://cymru2016.questionpro.com** (Cymraeg)

I gwblhau'r holiadur, ticiwch y blwch gyferbyn â'ch ateb, fel hyn [X] neu [✓]. Oni bai y manylir fel arall, dewiswch un ateb i bob cwestiwn. Gyda rhai cwestiynau, gofynnir i chi ysgrifennu'ch ateb yn uniongyrchol hefyd. Byddem yn ddiolchgar pe gallech ddefnyddio beiro du neu las neu bensil trwm.

Mae'r arolwg yn cynnwys 37 cwestiwn ac ni ddylai gymryd mwy na 15 munud i'w gwblhau. Byddem yn ddiolchgar pe gallech gymryd yr amser i ymateb i'r arolwg.

CYFRINACHEDD
Sylwer y caiff eich atebion eu trin yn gyfrinachol a'u cofnodi'n ddienw yn y gronfa ddata. Ni chaiff data ei ryddhau i neb mewn modd sy'n galluogi adnabod yr ymatebwyr.

Diolch yn fawr iawn am roi o’ch amser i lenwi’r holiadur hwn. Defnyddiwch yr amlen ragdaledig a amgaewyd i ddychwelyd yr holiadur.

Dr Siim Trumm
Adran Astudiaethau Diwylliannol a Gwleidyddol
Prifysgol Abertawe

## *Y BROSES YMGEISIO*

**C1.** Pa blaid y buoch yn sefyll drosti yn etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru?

| | |
|---|---|
| [ ] | Annibynnol |
| [ ] | Democratiaid Rhyddfrydol Cymru |
| [ ] | Llafur Cymru |
| [ ] | Plaid Cymru – the Party of Wales |
| [ ] | Plaid Geidwadol Cymru |
| [ ] | Plaid Werdd Cymru |
| [ ] | UKIP Cymru |
| | Arall. Manylwch: ________________________________________ |

**C2.** Fuoch chi'n sefyll fel ymgeisydd Etholaeth a/neu ymgeisydd y Rhestr Ranbarthol?

| | |
|---|---|
| [ ] | Ymgeisydd etholaeth yn unig |
| [ ] | Ymgeisydd ar y Rhestr Ranbarthol yn unig |
| [ ] | Ymgeisydd Etholaeth a'r Rhestr Ranbarthol |

**C3.** Ym mha etholaeth a/neu restr ranbarthol y buoch yn sefyll?

____________________________________________________________

## *YMGYRCHU*

**C4.** Sawl mis cyn etholiad 2016...

| | | |
|---|---|---|
| ... cawsoch eich enwebu gan eich plaid? | ____________________ | mis |
| ... dechreuoch drefnu'ch ymgyrch? | ____________________ | mis |
| ... dechreuoch ymgyrchu'n amser llawn? | ____________________ | mis |

**C5.** Sawl awr yr wythnos y neilltuoch i ymgyrchu yn ystod mis olaf yr ymgyrch?

____________________ awe

**C6.** Beth oedd eich nod pennaf yn ystod yr ymgyrch? Ble byddech yn eich gosod eich hun ar raddfa lle mae 0 yn golygu 'denu cymaint o sylw â phosib i mi fel ymgeisydd' ac mae 10 yn golygu 'denu cymaint o sylw â phosib i'm plaid'?

| Denu cymaint o sylw â phosib i mi fel ymgeisydd | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | Denu cymaint o sylw â phosib i'm plaid |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | |

**C7.** Fuoch chi'n defnyddio unrhyw rai o'r canlynol yn eich ymgyrch?

| | Heb eu defnyddio | Do, ond nid oeddent yn bwysig o gwbl | Do, ond nid oeddent yn bwysig iawn | Do, eithaf pwysig | Do, pwysig iawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Posteri ymgyrchu personol | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Taflenni personol | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Gwefan bersonol | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Hysbysebion personol yn y wasg | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Oriau swyddfa | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Cyfarfodydd lleol | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Safleoedd cyfryngau cymdeithasol | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |

**C8.** Yn ystod mis olaf yr ymgyrch, faint o oriau'r wythnos y buoch chi'n bersonol yn eu treulio ar y gweithgareddau ymgyrchu canlynol?

| | Dim o gwbl | 0-5 awr | 6-10 awr | 11-20 awr | Mwy nag 20 awr |
|---|---|---|---|---|---|
| Canfasio (o ddrws i ddrws) | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Dosbarthu taflenni | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Ymgyrchu yn y stryd | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Ffonio pleidleiswyr | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Gweithgareddau yn y cyfryngau | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Dadlau ag ymgeiswyr eraill yn gyhoeddus | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Ysgrifennu 'blogiau' ymgyrchu | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Cymryd rhan mewn 'sgyrsiau ar-lein' | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Trydar | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Ymgyrchu ar safleoedd rhwydweithio cymdeithasol megis Facebook | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |

**C9.** Wnaethoch chi godi unrhyw faterion yn ystod yr ymgyrch a oedd yn benodol i'ch etholaeth/rhanbarth na chawsant eu codi ar lefel genedlaethol gan y blaid?

[ ] Dim
[ ] Do
Os felly, pa rai? ______________________________

**C10.** Gan edrych yn ôl i ddechrau'r ymgyrch, beth oedd eich barn am eich tebygolrwydd o ennill sedd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru?

| Annhebygol iawn o ennill sedd | Eithaf annhebygol o ennill sedd | Cyfle teg i ennill sedd | Eithaf tebygol o ennill sedd | Tebygol iawn o ennill sedd |
|---|---|---|---|---|
| [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |

**C11.** Os oeddech yn meddwl eich bod yn eithaf annhebygol, neu'n annhebygol iawn o ennill sedd, pam penderfynoch chi sefyll er gwaethaf hynny? (ticiwch bob un sy'n berthnasol)

[ ] Roeddwn i'n meddwl y byddai sefyll yn brofiad diddorol
[ ] Drwy sefyll, gorfodais i'r pleidiau eraill i ddefnyddio eu hadnoddau yn fy etholaeth
[ ] Roedd yn bwysig rhoi dewis i'r pleidleiswyr
[ ] Roeddwn i'n gobeithio gwella fy statws yn y blaid
[ ] Roeddwn i'n meddwl byddai sefyll o fudd i'm gyrfa y tu allan i wleidyddiaeth

**C12.** (Os oeddech yn ymgeisydd etholaeth a'r rhestr ranbarthol) Pa gyfran o'ch amser ymgyrchu a dreuliwyd yn ymgyrchu dros bleidlais yr etholaeth a faint dros bleidlais y rhestr ranbarthol?

Ymgyrchu dros bleidlais yr etholaeth ____________ %
Ymgyrchu dros bleidlais y rhestr ranbarthol ____________ %

**C13.** Enilloch chi sedd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru?

| Dim | Do, fel AC etholaeth | Do, fel AC rhanbarthol |
|---|---|---|
| [ ] | [ ] | [ ] |

## *DEMOCRATIAETH A CHYNRYCHIOLAETH*

**C14.** Ar y cyfan, ydych chi'n fodlon iawn, eithaf bodlon, ddim yn fodlon iawn, neu ddim yn fodlon o gwbl ar sut mae democratiaeth yn gweithio yng Nghymru, yn y DU a'r UE?

| | Bodlon iawn | Eithaf bodlon | Ddim yn fodlon iawn | Ddim yn fodlon o gwbl |
|---|---|---|---|---|
| Cymru | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Y Deyrnas Unedig | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Yr Undeb Ewropeaidd | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |

**C15.** Beth yw'ch barn gyffredinol am y gweithdrefnau etholiadol canlynol?

| | Negyddol 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | Cadarnhaol 10 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pleidleisio drwy'r post | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Pleidleisio drwy ddirprwy | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Dulliau electronig o gyfrif pleidleisiau | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Pleidleisio ar y rhyngrwyd | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Pleidleisio â ffôn symudol | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |

**C16.** I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno...

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim y naill na'r llall | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| ... dylai Cymru gynnal refferendwm i benderfynu a ddylai aros yn rhan o'r DU neu fynd yn wlad annibynnol | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| ... dylai'r DU gyflwyno cynrychiolaeth gyfrannol ar gyfer etholiadau cyffredinol | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| … dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru barhau i gael ei ethol gan ddefnyddio'r System Aelod Ychwanegol | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| ... dylid lleihau'r oedran pleidleisio i 16 oed ar gyfer etholiadau Cynulliad Cymru | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |

**C17a.** Ceir amrywiaeth barn ynghylch pwy y dylai AC ei gynrychioli'n bennaf. Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw bod <u>AC etholaeth</u> yn cynrychioli'r grwpiau canlynol o bobl yn y Cynulliad?

| | Ddim yn bwysig o gwbl | Dim yn bwysig iawn | Eithaf pwysig | Pwysig iawn |
|---|---|---|---|---|
| Pleidleiswyr a fu'n cefnogi'r AC yn yr etholaeth | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Holl ddinasyddion yr etholaeth | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Cefnogwyr y blaid yng Nghymru gyfan | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Aelodau grŵp cymdeithasol penodol | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Holl drigolion Cymru | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |

**C17b.** A pha mor bwysig yw bod <u>AC rhanbarthol</u> yn cynrychioli'r grwpiau canlynol o bobl yn y Cynulliad?

| | Ddim yn bwysig o gwbl | Dim yn bwysig iawn | Eithaf pwysig | Pwysig iawn |
|---|---|---|---|---|
| Pleidleiswyr a gefnogodd AC yn y rhanbarth | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Holl ddinasyddion y rhanbarth | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Cefnogwyr y blaid yng Nghymru gyfan | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Aelodau grŵp cymdeithasol penodol | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Holl drigolion Cymru | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |

**C18a.** Dyma nifer o gwestiynau am ddewisiadau anodd a allai wynebu Aelodau Cynulliad wrth benderfynu sut i bleidleisio yn y Cynulliad. Yn eich barn chi, sut dylai AC bleidleisio os yw barn pleidleiswyr yn ei etholaeth/rhanbarth yn wahanol i farn ei blaid?

[ ] Dylai AC bleidleisio yn ôl barn ei blaid
[ ] Dylai AC bleidleisio yn ôl barn y pleidleiswyr yn ei etholaeth/rhanbarth

**C18b.** A sut dylai AC bleidleisio os nad yw ei farn bersonol ar fater yn cyd-fynd â barn y pleidleiswyr yn ei etholaeth/rhanbarth?

[ ] Dylai AC bleidleisio yn ôl ei farn ei hun
[ ] Dylai AC bleidleisio yn ôl barn y pleidleiswyr yn ei etholaeth/rhanbarth

**C18c.** Ac yn olaf, sut dylai AC bleidleisio os nad yw ei farn bersonol ar fater yn cyd-fynd â barn ei blaid?

[ ] Dylai AC bleidleisio yn ôl ei farn ei hun
[ ] Dylai AC bleidleisio yn ôl barn ei blaid

**C19.** Yn aml, bydd gwleidyddion yn gwneud penderfyniadau drwy gydbwyso cyfranogiad, prosesau a chanlyniadau gwleidyddol. Yn eich barn chi, beth yw'r ystyriaethau pwysicaf wrth wneud penderfyniadau gwleidyddol? Rhowch sgôr i'r datganiadau canlynol lle mai 1 yw'r 'pwysicaf' a 3 y 'lleiaf pwysig'.

| | |
|---|---|
| [ ] | Dylai'r broses gwneud penderfyniadau gwleidyddol gynnwys y nifer uchaf posib o bobl a grwpiau |
| [ ] | Dylai'r broses gwneud penderfyniadau gwleidyddol arwain at y canlyniad gorau ar gyfer y nifer uchaf o bobl |
| [ ] | Dylai'r broses gwneud penderfyniadau gwleidyddol ddilyn rheolau a phrosesau sydd wedi'u diffinio'n glir |

## ***<u>MATERION GWLEIDYDDOL</u>***

**C20.** Yn eich barn chi, beth yw'r problemau pwysicaf sy'n wynebu Cymru heddiw?

1. ______________________________
2. ______________________________
3. ______________________________

**C21.** Mae rhai yn dweud y dylid gwthio uniad Ewropeaidd ymhellach. Mae eraill yn dweud ei fod wedi mynd yn rhy bell. Ble byddech yn gosod eich hun ar raddfa lle mae 0 yn golygu 'mae wedi mynd yn rhy bell' ac mae 10 yn golygu 'dylid ei wthio ymhellach'?

| Mae uniad wedi mynd yn rhy bell | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | Dylid gwthio uniad ymhellach |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | |

**C22.** Yn y refferendwm ar aelodaeth Prydain o'r Undeb Ewropeaidd (UE) ar 23 Mehefin 2016, sut byddwch yn pleidleisio?

| Gadael yr UE | Aros yn yr UE | Ni fyddaf yn pleidleisio |
|---|---|---|
| [ ] | [ ] | [ ] |

**C23.** Wrth ystyried dyfodol tymor hir Cymru, beth fyddai'n well gennych?

[ ] Dylai Cymru fod yn annibynnol, ar wahân i'r DU a'r UE
[ ] Dylai Cymru fod yn annibynnol, ar wahân i'r DU, ond yn rhan o'r UE
[ ] Dylai Cymru aros yn rhan o'r DU, â'i Chynulliad etholedig ei hun sy'n meddu ar bwerau helaeth
[ ] Dylai Cymru aros yn rhan o'r DU, â'i Chynulliad etholedig ei hun sy'n meddu ar bwerau cyfyngedig
[ ] Dylai Cymru aros yn rhan o'r DU, heb Gynulliad etholedig

**C24.** Faint o ddylanwad sydd gan wahanol sefydliadau ar y ffordd mae Cymru'n cael ei rheoli yn eich barn chi? Rhowch sgôr i'r canlynol lle mai 1 yw'r 'pwysicaf' a 4 y 'lleiaf pwysig'.

| | Cynulliad Cenedlaethol Cymru | Llywodraeth y DU yn San Steffan | Cynghorau lleol yng Nghymru | Yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|---|
| Dylanwad mwyaf | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Dylai gael y dylanwad mwyaf | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |

**C25.** Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi bod yn gweithredu ers 17 o flynyddoedd bellach. I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am ei effaith ar Gymru? Mae wedi...

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim y naill na'r llall | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| ... cynyddu'r tebygolrwydd y bydd Cymru'n gadael y DU yn y pen draw | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| ... rhoi llais cryfach i Gymru yn y DU | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| ... cynyddu balchder y Cymry yn eu gwlad | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| ... rhoi mwy o ddylanwad i bobl gyffredin ar sut mae Cymru'n cael ei llywodraethu | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| ... arwain at welliant yn safonau byw Cymru | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| ... gwella safon addysg yng Nghymru | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| ... gwella safon gofal iechyd yng Nghymru | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| ... cael dylanwad cadarnhaol ar gyfer Cymru | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |

**C26.** I ba raddau rydych yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol?

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim y naill na'r llall | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| Dylai'r llywodraeth ailddosbarthu incwm o'r cefnog i'r rhai sy'n llai cefnog | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Mae perchnogion yn elwa ar fusnes mawr ar draul y gweithwyr | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Nid yw bobl gyffredin sy'n gweithio'n cael eu cyfran deg o gyfoeth y genedl | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Mae un gyfraith i'r cyfoethog ac un arall i'r tlawd | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Nid yw bobl ifanc heddiw'n dangos digon o barch tuag at werthoedd Prydeinig traddodiadol | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Dylid rhoi dedfrydau llymach i bobl sy'n torri'r gyfraith | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Dylai ysgolion addysgu plant i ufuddhau i awdurdod | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Dylid cymryd camau cryfach i ddiogelu'r amgylchedd | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Dylai Cymru ddechrau tynnu nwy siâl o'r ddaear | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Dylai'r pŵer i amrywio treth incwm fod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Dylai pwerau dros y system cyfiawnder troseddol fod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Dylid gwneud mwy i gadw'r Gymraeg fel iaith fyw | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Mae'r Cymry'n wahanol i Saeson | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| Ychydig iawn sy'n gyffredin rhwng Cymry Cymraeg a Chymry di-gymraeg | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |

**C27.** Mae llawer o wahanol safbwyntiau ar yr iaith Gymraeg. Pa un sy'n cydweddu orau â'ch barn chi?

| | |
|---|---|
| [ ] | Mae'r iaith yn amherthnasol i Gymru fodern |
| [ ] | Mae gormod yn cael ei wneud i hyrwyddo dwyieithrwydd a dylid cwtogi addysg Gymraeg orfodol |
| [ ] | Mae'r polisi presennol ar hyrwyddo dwyieithrwydd yn gywir |
| [ ] | Dylid gwneud mwy i annog dwyieithrwydd a dylai fod yn ofyniad dal swydd gyhoeddus |
| [ ] | Dylai'r Gymraeg fod yn brif iaith Cymru |

**C28.** Bu llawer o ddadlau'n ddiweddar ynghylch cynhesu byd-eang a newid yn yr hinsawdd. Pa mor wir yw'r datganiad hwn yn eich barn chi? Oni chymerir camau gweithredu radical yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd newid yn yr hinsawdd yn achosi niwed sylweddol i amgylchedd y Ddaear.

| | |
|---|---|
| [ ] | Yn hollol wir |
| [ ] | Yn rhannol wir ond mae'n gorliwio'r sefyllfa |
| [ ] | Yn hollol anghywir |

**C29.** Pa un o'r datganiadau canlynol sy'n disgrifio eich barn chi am bŵer niwclear yng Nghymru?

| | |
|---|---|
| [ ] | Dylen ni gynyddu'r nifer o orsafoedd pŵer niwclear |
| [ ] | Dylen ni barhau i ddefnyddio'r gorsafoedd pŵer presennol a'u hamnewid am rai newydd pan fyddan nhw'n dod i ben eu hoes |
| [ ] | Dylen ni barhau i ddefnyddio'r gorsafoedd pŵer presennol ond ni ddylen ni eu hamnewid am rai newydd pan fyddan nhw'n dod i ben eu hoes |
| [ ] | Dylen ni gau'r holl orsafoedd pŵer niwclear presennol nawr a pheidio â'u hamnewid am rai newydd |

**C30.** Wrth feddwl am yr amgylchedd, mae rhai pobl yn credu y dylid rhoi blaenoriaeth i amddiffyn yr amgylchedd hyd yn oed os bydd hynny'n lleihau twf economaidd. Mae eraill yn credu y dylid rhoi blaenoriaeth i dwf economaidd hyd yn oed os bydd hynny'n rhwystr i amddiffyn yr amgylchedd. Ble byddech yn eich gosod eich hun ar raddfa o 0 - 'dylid rhoi blaenoriaeth i dwf economaidd' i 10 - 'dylid rhoi blaenoriaeth i amddiffyn yr amgylchedd'?

| Dylid rhoi blaenoriaeth i dwf economaidd | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | Dylid rhoi blaenoriaeth i amddiffyn yr amgylchedd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | |

**C31.** Wrth siarad am wleidyddiaeth, mae pobl weithiau'n sôn am y chwith a'r dde. Gan ddefnyddio graddfa o 0 i 10 lle 0 yw'r safbwynt adain chwith pellaf posib a 10 yw'r safbwynt adain dde pellaf posib, ble byddech yn gosod...

| | Chwith | | | | | | | | | | De |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 |
| … chi'ch hun | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| … eich plaid leol | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |
| … pleidleiswyr eich plaid | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] | [ ] |

## *CEFNDIR PERSONOL*

**C32.** Ydych chi'n wryw neu'n fenyw?

[ ] Benyw
[ ] Gwryw

**C33.** Ym mha flwyddyn cawsoch eich geni?

____________________

**C34.** Ydych chi'n gallu siarad Cymraeg?

[ ] Ydw, yn rhugl
[ ] Ydw, ond ddim yn rhugl
[ ] Nac ydw

**C35.** Pa un o'r canlynol yw'r disgrifiad gorau o sut rydych yn meddwl amdanoch chi'ch hun?

[ ] Cymreig, ddim yn Brydeinig
[ ] Yn fwy Cymreig na Phrydeinig
[ ] Cymreig a Phrydeinig i'r un graddau
[ ] Yn fwy Prydeinig na Chymreig
[ ] Prydeinig ddim yn Gymreig
Arall. Manylwch: ____________________

**C36.** Beth yw eich cymhwyster addysgol uchaf?

[ ] Wedi gorffen yr ysgol gynradd
[ ] TGAU/Lefel O/Gradd Safonol
[ ] Safon Uwch
[ ] Cymhwyster Proffesiynol/Galwedigaethol
[ ] Gradd Gyntaf
[ ] Gradd Uwch
[ ] Doethuriaeth

**C37.** Pa un o'r canlynol yw'r disgrifiad gorau o'ch gwaith? (os oeddech yn AC yn y Cynulliad diwethaf atebwch y cwestiwch o ran eich swydd flaenorol)

[ ] Gwaith proffesiynol neu dechnegol iawn
[ ] Rheolwr neu uwch weinyddwr
[ ] Gwaith gweinyddol
[ ] Gwerthiannau neu wasanaethau
[ ] Perchennog busnes bach
[ ] Fforman neu oruchwyliwr gweithwyr eraill
[ ] Gwaith llaw crefftus
[ ] Gwaith llaw lled-grefftus neu ddi-grefft
[ ] Dwi ddim erioed wedi cael swydd

**Diolch yn fawr iawn am roi o'ch amser i lenwi'r holiadur hwn. Byddwch gystal â'i ddychwelyd yn yr amlen ragdaledig a amgaewyd.**

Dr Siim Trumm
Adran Astudiaethau Diwylliannol a Gwleidyddol
Prifysgol Abertawe